



# Beth yw Aflonyddu neu Ymosod Rhywiol?

Nid yw unrhyw fath o aflonyddu, camymddwyn neu drais rhywiol erioed yn dderbyniol ac nid oes lle iddo yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd.

Mae llawer o bobl yn anymwybodol o wir ddiffiniadau'r testunau hyn, gan ei gwneud hi'n anodd adnabod os yw erioed wedi digwydd iddynt. Gellir canfod mwy o wybodaeth ynghylch y mathau o drais rhywiol a ble i ddod o hyd i gymorth yma >



**Aflonyddu Rhywiol** yw ymddygiad digroeso o natur rywiol sy'n codi ofn, gofid, neu gywilydd ar berson arall. Gall gymryd sawl ffurf wahanol.

Er enghraifft, syllu ar gorff person, chwibanu mewn modd rhywiol, neu anfon negeseuon gyda chynnwys rhywiol.

**Ymddwyn mewn ffordd rywiol yn erbyn dymuniadau'r person arall = aflonyddu rhywiol**

**Ymosod rhywiol** yw cyffwrdd â pherson arall heb eu cydsyniad, gydag unrhyw ran o'r corff neu unrhyw beth arall.

Mae hyn yn cynnwys cusanu digroeso, cyffwrdd, neu orfodi rhywun i gyflawni gweithredoedd rhywiol. Gall hefyd gynnwys cyffwrdd â dillad rhywun.

**Gafael, palfalu, 'gropio', neu gyffwrdd heb gydsyniad = ymosod rhywiol**